

Rheolwr: Kevin Staveley

Adran Agored

1^{af}: £300, 2^{il}: £180, 3^{edd}: £120

Gwobrau Graddio: 2049 – 1900; 1899 – 1750; 1749 a llai: £120 fesul rhaniad.

Tâl Mynediad: Oedolion £20, Pobl Ifainc £10 (o dan 18 oed ar 1/9/17)

Rhaid i ddarpar chwaraewyr yn yr Adran Agored sydd heb radd FIDE gael rhif adnabod FIDE trwy eu corff cenedlaethol cyn ymgynnig. Gall chwaraewyr Cymreig wneud hynny'n gyflym ac yn ddi-gost drwy gysylltu â Robert Taylor (01633 370497; gradingofficer@welshchessunion.org.uk).

Adran Major – ar gael i chwaraewyr a'u gradd yn llai na 1600 (System Lloegr: 121)

1^{af}: £150. Cyhoeddir yr ail a'r drydedd wobwr, a'r gwobrau graddio (dan 1400 (Lloegr: 96)) ac o dan 1200 (Lloegr: 71)) yn ystod y digwyddiad ond bydd cyfanswm y gwobrau o leiaf yn gyfartal i daliadau mynediad yr adran. Taliadau Mynediad: Oedolion £18, Pobl Ifainc £9 (o dan 18 oed ar 1/9/17).

Anfoner ffurflenni mynediad at:

Tony Haigh, Brithdir Mawr, Trefdraeth, Sir Benfro. SA42 0QJ Ffôn: 07811 852829. (tony@brithdirmawr.co.uk)

- Cyflymder chwarae: y symudiadau i gyd mewn 1½ awr gydag ychwanegiad o 30 eiliad ar ôl pob symudiad;
- Cyhyd ag yr hawliwr ef ar y ffurflen hon, ceir hebiad gwerth hanner pwynt mewn unrhyw un o'r bedair rownd gyntaf;
- Mae chwaraewyr sy'n gymwys i ddwy wobwr ar eu pennau eu hunain yn derbyn y wobwr fwyaf yn unig. Rhennir y gwobrau perthnasol rhwng chwaraewyr sy'n gorffen ar yr un sgôr.
- Ni chaiff chwaraewyr heb radd ennill gwobr raddio.
- Mae chwaraewyr sy'n cyrraedd y bwrdd ar ôl treigladau o 30 munud ar eu cloc yn colli'r gêm heb ei chwarae.
- Gosodir rheolau yn ystod y Gyngres:
 - i wneud penderfyniadau'r rheolwr yn amodol ar drefn apelio fer;
 - i sicrhau y caiff chwaraewyr cael egwyl o 30 munud o leiaf rhwng y rowndiau.
- Mae gan y trefnwyr yr hawl i wrthod neu i drosglwyddo ymgynigion.

Graddau

Yn yr **Adran Agored** defnyddir Rhestr Graddio FIDE Chwefror 2018 cyn belled ag y bo modd i bennu gwrthwynebwy ac i roi gwobrau graddio.

Yn yr **Adran Major** at yr un dibenion ac hefyd wrth benderfynu a oes rhywun yn gymwys i chwarae yn yr adran hon, defnyddir graddau yn rhestr Ionawr 2018 Undeb Gwyddbwyll Cymru neu, yn ôl yr amgylchiadau, raddau diweddaraf mewn restrau cenedlaethol eraill. Dylai chwaraewyr heb radd o gwbl ymgynghori â Tony Haigh cyn ceisio chwarae yn y *Major*.

Nodweddion Eraill y Gyngres

Cynhelir cystadleuaeth 'Blitz' (3 munud ac ychwanegiadau o 2 eiliad fesul symudiad ar gyfer yr holl gêm) ar nos Sadwrn. Disgwylir y bydd y gemau hyn yn cyfrif tuag at raddau Blitz FIDE.

Gosodir y gemau i gyd yn yr Adran Major a'r Adran Agored gyda nodiadau arnynt ar wefannau 'Dyfed Chess' a 'Welsh Chess Union'.

Llety

Lleolir Gwesty'r **Fishguard Bay** (SA64 0BT) ar ffin Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn ei goetir ei hun gyda golygfa ar draws y bae tuag at y dwyrain. Y tu ôl i'r gwesty mae penrhyn Pen-caer ac nid yw safle'r goresgyniad diwethaf ar fewndir Prydain yn bell ar hyd Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.

Codir y Gwesty £150 y pen am ystafelloedd i'w rhannu a £155 am ystafelloedd sengl (gan gynnwys tâl gwasanaeth a TAW) a hynny'n cynnig te/coffi a phicau wrth gyrraedd, dewis o gawl, brechdanau a choffi wedyn. Ddydd Sadwrn ceir brechwast Cymreig llawn, cinio un cwrs canol dydd gyda choffi a swper tri chwrs gyda choffi. Ddydd Sul ceir brechwast Cymreig llawn eto a chinio traddodiadol canol dydd gyda phwddin i'w ddilyn. Mae dewisiadau llysiuol ar gael. Codir £72.50 ar blentyn sy'n rhannu ystafell ag o leiaf un oedolyn.

Rhaid i chwaraewyr wneud eu trefniadau eu hunain â'r Gwesty ynghylch llety (Ffôn 01348 873571, Facs 01348 873030 neu e-bost: officefbh@aol.com)

Rhaid i chwaraewyr sy'n cadw llety yn talu blaendal o £20 i'r gwesty.

Gall chwaraewyr dibreswyl brynu: Nos Wener neu amser cinio dydd Sadwrn/Sul: Cawl a Rhôl Fara am £4.95 neu frechdanau am £4.50; *Cinio Sadwrn*: £10.95 (ar gael o 1:00 ymlaen) *Swper nos Sadwrn*: £16.50 *Cinio Sul* £12.95 (ar gael o 1:00 ymlaen).

Cyfeiriadau

Dilynwch yr arwyddion i Derfynfa Fferi Abergwaun (i Rosslare) ond wrth y cylchfan y tu allan i'r Derfynfa a'r Gorsaf Rheilffordd ewch syth ymlaen (a'r môr ar eich llaw dde) i fyny llethr fach a dilyn y ffordd bengaead draw i'r dde; mae'r gwesty hanner milltir i ffwrdd ar ddiwedd y ffordd hon.

Y Ganolfan Leol i Ymwelwyr

<http://www.fishguardonline.com>

Ffôn: 01437 776636.

Ffurflen Fynediad

Enw.....

.

Cyfeiriad.....

.....

.....

E-bost.....

Rhif Ffôn.

Clwb.....

Gradd Genedlaethol.....

Dyddiad Geni (pobl ifainc yn unig)

Hoffwn chwarae yn yr Adran.....

(Adran Agored yn unig) Fy rhif adnabod FIDE yw.....

Amgaeaf dâl mynediad o £ a rhodd o £.....

A wnewch sieciau / archebion post yn daladwy, os gwelwch yn dda, i:

Dyfed Chess Association

- Mae angen arnaf heibiad hanner pwynt yn rownd.....

47th

Cyngres Gwyddlawyll Dyfed

Gwesty'r Fishguard Bay

Wdig, Sir Benfro.

16 Chwefror – 18 Chwefror 2018

Trefnir dwy adran yn unol â System y Swistir: yr Adran Agored a'u gemau i'w graddio gan FIDE a'r Adran *Major* sy'n gyfyngedig i chwaraewyr a'u gradd genedlaethol yn llai na 1600.

Amserlen

Rownd 1	Nos Wener 16 Chwefror	6:45 yh
Rownd 2	Dydd Sadwrn 17 Chwefror	9:30 yb
Rownd 3	Dydd Sadwrn 17 Chwefror	2:30 yp
Rownd 4	Dydd Sul 18 Chwefror	9:30 yb
Rownd 5	Dydd Sul 18 Chwefror	2:30 yp